ASTUDIAETH ACHOS:

Radioisotop Meddygol ac Adweithydd Ymchwil – MRRR



GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:
Trawsfynydd

GWERTH Y PROJECT:
£70,000 - £90,000

AMSERIAD/HYD Y PROJECT:
3 mis

Trosolwg o'r project

Defnyddir radioisotopau yn helaeth yn y sectorau diwydiannol, amgylcheddol ac iechyd. Mae dadansoddiad diweddar gan y llywodraeth yn dangos, oherwydd y bwriedir cau tri adweithydd cynhyrchu isotop yn Ewrop, bod risg i ddiogelwch cyflenwad isotop; yn benodol, cyflenwad diogel o radioisotopau meddygol a ddefnyddir mewn gweithdrefnau diagnostig a therapiwtig. Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Astudiaeth Opsiynau i archwilio'r cyfleoedd i sicrhau cyflenwad diogel a chynaliadwy o radioisotopau meddygol i'r DU.

Manylion am y dull datrys/gweithredu

Mae'r dull cyfredol o ymdrin â'r project yn cynnwys y canlynol: :

- Adolygiad o'r technolegau presennol a newydd, a allai gyflenwi radioisotopau meddygol ac ymchwilio i'r holl ddefnyddiau eraill ar gyfer y technolegau a aseswyd.
- Nodi'r galw am gymwysiadau niwtron a chadarnhau'r defnyddiau eraill a ddarperir gan MRRR.
- Asesu opsiynau'r safle ar gyfer cyflwyno datrysiad ac archwilio'r modelau cyllido posibl, y gellid eu cymhwyso i ddatblygu MRRR.
- Adrodd ar y canlyniadau a nodi'r opsiwn a ffefrir i'w ddatblygu ar gyfer dadansoddiad manylach yn ystod cam nesaf y gwaith

Copyright © 2020 NWNA